# Siôn Jones

07700 123456 - URL LinkedIn - dymafyebost@gmail.com

## PROFFIL PERSONOL

Myfyriwr MSc Rheoli Adnoddau Dynol sy'n hyblyg, yn ddiwyd ac yn llawn cymhelliant gyda dros flwyddyn o brofiad ym maes Adnoddau Dynol (AD). Y gallu diamheuol i ymgyfarwyddo â phrosesau AD, o recriwtio i gysylltiadau staff. Yn dyheu am ddilyn gyrfa ym maes Adnoddau Dynol, ac yn chwilio am gyfleoedd i arloesi arferion AD a chyfrannu at dwf sefydliadol.

## ADDYSG

**MSc Rheoli Adnoddau Dynol,** *Prifysgol Caerdydd* — 2024 - Presennol

**Modiwlau perthnasol:**

- **Rheoli Adnoddau Dynol:** Adolygu a gwerthuso'n feirniadol ymchwil a dadleuon cyfoes mawr ym meysydd rheoli adnoddau dynol a datblygu adnoddau dynol
- **Materion Cyfoes ym maes Ymchwil Adnoddau Dynol:** Asesu gwerth ymchwil academaidd ar Reoli Adnoddau Dynol a'r cyfraniad y mae'n gallu ei wneud i ddatblygu ymarfer rheoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- **Ymarfer Adnoddau Dynol yn y Gweithle Modern:** Dadansoddi'r cysyniad o amrywiaeth yn y gwaith a'r goblygiadau a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i sefydliadau

**BSc Rheoli Busnes,** *Prifysgol Caerdydd* — 2020 – 2023

Canlyniad: 2:1

**Modiwlau perthnasol:**

- **Pobl mewn Sefydliadau:** Datblygu dealltwriaeth o themâu canolog mewn dadansoddi sefydliadau gwaith yn gymdeithasol ac yn seicolegol, gan gynnwys unigolion mewn sefydliadau, grwpiau a thimau, rheoli adnoddau dynol, yr amgylchedd gwaith cyfnewidiol, tegwch yn y gwaith a'r newid sefydliadol yn y gwaith
- **Rheoli Pobl:** Gwerthuso'r prif ddadleuon ym maes rheoli adnoddau dynol

**Safon Uwch,** *Chweched Dosbarth De Cymru* — 2018 – 2020

- Cymdeithaseg (A), Economeg (B), Mathemateg (C)

## PROFIAD PERTHNASOL

**Interniaeth Haf AD,** *Accenture* — Gorffennaf 2023

- Gweithio o fewn blaenoriaethau AD lleol a byd-eang amrywiol mewn meysydd megis Strategaeth Talent a Phrofiad Gweithwyr, Recriwtio, Gwobrwyo, Darparu Gwasanaeth, Cynllunio Talent a Gweithrediadau, Cysylltiadau Gweithwyr, a'r Tîm Partner AD
- Datblygu craffter busnes, a sgiliau AD swyddogaethol a sylfaenol, a chymryd rhan mewn dysgu AD o'r radd flaenaf
- Gweithio gyda chydweithwyr ac arweinwyr dawnus ac ysbrydoledig a dysgu ganddyn nhw

**Lleoliad Adnoddau Dynol,** *Unilever* — Hydref 2022 – Mehefin 2023

- Gwella perfformiad y cwmni trwy ddefnyddio data a dealltwriaeth i lywio penderfyniadau a sefydlu ffyrdd newydd o symleiddio'r diwrnod gwaith
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sefydliad drwy greu adnodd hyfforddiant at ddefnydd staff
- Paratoi llawlyfrau i staff, gweinyddu'r gyflogres a chadw trefn ar gofnodion gweithwyr

**Blas ar fyd gwaith AD y Gwanwyn,** *L'oreal* — Ebrill 2021

- Datblygu sgiliau rhwydweithio a gwybodaeth am L'oreal drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a phaneli ar-lein
- Cysgodi gwaith gweinyddol a'r defnydd o wahanol feddalwedd AD
- Cymryd rhan mewn prosesau recriwtio mewnol a helpu i drefnu cyfweliadau

## SGILIAU ALLWEDDOL

**Ymwybyddiaeth o fusnes a rheoli busnes:**

- Cymryd rhan mewn gwaith ymchwil cynhwysfawr o'r diwydiant AD i ddeall tueddiadau'r farchnad
- Cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau diwydiant, cynadleddau a chyfleoedd rhwydweithio i ddatblygu dealltwriaeth o weithrediad yr adran AD
- Blaenoriaethu dysgu parhaus am y diwydiant AD a chael gwybod am ddatblygiadau technolegol, newidiadau economaidd a newidiadau rheoleiddio a allai arwain at newid busnes

**Sgiliau rhyngbersonol a sgiliau cyfathrebu:**

- Y gallu i gyfathrebu canlyniadau yn glir yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Y gallu diamheuol i gyfathrebu a chydweithio'n effeithiol, gan ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol cryf i wella deinameg tîm a chanlyniadau prosiect
- Wedi datblygu hyn drwy brofiad gwaith mewn bar a phrofiad gwaith AD sylweddol

**Arweinyddiaeth a gwaith tîm:**

- Y gallu i addasu i ofynion y tîm a chefnogi cyd-aelodau yn ôl yr angen, gan feithrin awyrgylch gwaith adeiladol ac effeithiol
- Cydweithio’n effeithiol mewn timau traws-swyddogaethol, gan ddangos y gallu i addasu, cyfathrebu, a defnyddio dull a ysgogir gan ganlyniadau i gyflawni amcanion
- Arddangos arweinyddiaeth effeithiol, gan ysbrydoli timau i gyflawni nodau trwy arweiniad strategol, cydweithredu, a dull gweithredu a ysgogir gan ganlyniadau

**Sgiliau trefnu:**

- Dangos sgiliau trefnu cryf, medrus wrth flaenoriaethu tasgau, a rheoli terfynau amser
- Y gallu diamheuol i drefnu a symleiddio llifoedd gwaith, gan wneud y gorau o effeithlonrwydd a gwella cynhyrchiant cyffredinol mewn lleoliadau proffesiynol amrywiol

## Profiad arall

**Gweinydd bar, Caerdydd** Rhagfyr 2022 – Gorffennaf 2023

- Datrys heriau annisgwyl yn effeithiol yn ystod oriau prysur, gan amlygu ystwythder a gwneud penderfyniadau’n gyflym
- Ailwampio cynllun a dyluniad y bar i wella profiad y cwsmer
- Rheoli ac olrhain stoc y bar yn fedrus, gan sicrhau bod lefelau stoc ar eu gorau a lleihau gwastraff

## Tystysgrifau/cyrsiau ychwanegol

**i:act - Deall a Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Lles Cadarnhaol yn y Gweithle** Tachwedd 2023

- Deall materion iechyd meddwl a lles yn well a nawr yn gallu cydnabod pryd y gallai fod angen cymorth a chefnogaeth bellach
- Deall dulliau ymarferol i reoli straen, gorbryder a hwyliau isel, a hyrwyddo lles cadarnhaol i fagu gwydnwch.
- Wedi dysgu deall pa ganllawiau a chyngor y gellir eu defnyddio i gysylltu ag eraill a allai fod yn profi problem iechyd meddwl neu les

## Geirdaon

Bydd geirdaon ar gael ar gais